Cyllid y Wlad

Hunan Asesiad

Peidiwch â cholli'r dyddiad cau 31 Ionawr ...



Cofiwch

- **mae cosbau awtomatig ar gyfer Ffurflenni Treth sy'n cael eu dychwelyd yn hwyr**
- **codir llog a gor-dâl yn awtomatig os ydych yn hwyr yn talu.**

darllenwch ymlaen . . .

A ydych wedi dychwelyd eich Ffurflen Dreth?

Os ydych wedi ei dychwelyd, diolch.

Os nad ydych, dylech sicrhau bod y Ffurflen Dreth yn ein cyrraedd erbyn 31 Ionawr. Does dim byd i'w ennill trwy oedi cyn dychwelyd eich Ffurflen Dreth, a bydd yn rhaid i chi dalu cosb awtomatig os dychwelwch y Ffurflen Dreth yn hwyr.

A oes gennych rhywbeth i'w dalu erbyn 31 Ionawr?

Os felly, dylech sicrhau y bydd y taliad yn ein cyrraedd erbyn 31 Ionawr neu bydd yn rhaid i chi dalu llog, ac efallai y bydd yn rhaid i chi dalu gor-dâl.

Mae slip talu ynghlwm wrth y ffurflen amgaeëdig. Gweler cefn y ffurflen am fanylion ar sut i dalu.

At y dyfodol ...

Mae'n rhy hwyr y tro hwn, ond ar gyfer eich Ffurflen Dreth nesaf dylech ystyried y manteision o'i dychwelyd yn gynnar.
Os byddwch yn dychwelyd eich Ffurflen Dreth erbyn 30 Medi, byddwn

- **yn cyfrifo'r bil treth drosoch**
- **yn casglu'r dreth sy'n ddyledus (os yw'n llai na £1,000) drwy'r côd Talu Wrth Ennill y flwyddyn nesaf, os medrwn.**



Cosbau a Gor-daliadau

Gweler cefn y daflen hon am ragor o wybodaeth ynglŷn â chosbau a gor-daliadau.

Cosbau a gor-daliadau

Ffurflenni Treth sy'n hwyr

Os na fyddwn yn derbyn eich Ffurflen Dreth erbyn 1 Chwefror* bydd cosb awtomatig o £100.

* *Os anfonwyd Ffurflen Dreth atoch yn y 3 mis diwethaf, gofynnwch i'ch swyddfa Cyllid y Wlad am y dyddiad i'w dychwelyd*

Gellir codi fwy o gosbau, gan gynnwys cosb awtomatig arall o £100 os derbyniwn eich Ffurflen Dreth ar ôl 31 Gorffennaf.

Os ydych yn gyfrifol am Ffurflen Dreth ystad neu ymddiriedolaeth, bydd y cosbau yn gymwys i chi.

Taliadau sy'n hwyr

Os byddwn yn derbyn eich taliad ar gyfer 31 Ionawr yn hwyr bydd yn rhaid i chi dalu llog.

Os derbyniwn ef ar ôl 28 Chwefror efallai y codir gor-dâl awtomatig hefyd o 5%.

Os ydych yn cael trafferth i dalu, cysylltwch â ni am gyngor.

Efallai y codir gor-dâl awtomatig arall o 5% os na fydd y taliad yn ein cyrraedd erbyn 31 Gorffennaf.